# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 6

CYFFREDINOL

### 40 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(c) yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron y Senedd ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(3) Mae is-adran (2) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys—

(a) rheoliadau o dan adran 15(1) (gwahoddiadau i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed) neu adran 39 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.) sy'n diwygio, diddymu neu'n addasu darpariaeth mewn—

(i) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig,

(ii) Mesur a basiwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 2006, neu

(iii) Deddf a basiwyd o dan Ran 4 o Ddeddf 2006;

(b) rheoliadau o dan adran 26(1).

(4) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon nad yw is-adran (2) yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan y Senedd.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/05/2020.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Adran 40. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 40 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 42(1)(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/05/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, Adran 40.